

Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg

**Adolygu Cynnydd yn
erbyn Safonau Gofal
Iechyd Cymru -
1 Ebrill 2006 – 31 Mawrth
2007**

Dyddiad: Hydref 2007

Cynnwys

	Rhif y dudalen
1. Cyflwyniad a Chyd-destun	1
2. Proses Asesu 2006-07	5
3. Trosolwg o Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg.....	9
4. Canfyddiadau	
▪ Profiad y Claf	11
▪ Canlyniadau Clinigol.....	25
▪ Rheoli Gofal Iechyd	31
▪ Iechyd y Cyhoedd.....	49
5. Y Camau Nesaf.....	53
Atodiadau	
Atodiad 1 : Diffiniadau o Lefelau Aeddfedrwydd	55
Atodiad 2: Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd yn ôl Safon.....	57
Atodiad 3: Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr	65
Atodiad 4: Rhestr Termau	67

1. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o'r gwaith yr ymgwymerwyd ag ef gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu hunanasesiad o berfformiad Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg 2006-2007 yn erbyn *Safonau Gofal Iechyd Cymru*.

Y Safonau

1.2. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Safonau Gofal Iechyd Cymru* ym mis Mai 2005 a daethant i rym ar 1 Mehefin 2005. Maent yn amlinellu fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd i gefnogi'r GIG a'i bartneriaid i ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol ac o ansawdd ym mhob lleoliad gofal iechyd.

1.3. Yn gyntaf oll, diben y Safonau Gofal Iechyd yw cyflwyno'r gwell lefelau gofal a thriniaeth y mae gan bobl Cymru hawl resymol i'w disgwyl a chan hynny darparu sylfaen er mwyn i sefydliadau gofal iechyd ddatblygu a chyflawni'r disgwyliadau newydd a mwy heriol ar gyfer gofal cleifion a amlinellir yn strategaeth ddeng mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, '*Cynllun Oes*'. Mae'n ofynnol i bob sefydliad gofal iechyd¹ yng Nghymru ystyried y safonau wrth ddarparu gofal iechyd a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, waeth beth fo'r lleoliad.

1.4. Mae *Safonau Gofal Iechyd Cymru* yn amlinellu 32 safon o dan bedwar maes. Mae pob un o'r meysydd yn deillio o werthoedd craidd a ddylai fod yn sail i gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal iechyd, ac y mae pob safon o fewn y maes yn disgrifio'r gwerthoedd y mae'r maes yn eu cynrychioli.

- Mae'r maes cyntaf '*Profiad y Claf*' yn nodi:

Bydd y safonau i gefnogi'r broses o ddarparu gofal iechyd mewn partneriaeth â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd yn seiliedig ar gynlluniau a phenderfyniadau sy'n parchu anghenion a

¹ Diffinnir sefydliadau gofal iechyd fel sefydliadau GIG Cymru, contractwyr annibynnol a sefydliadau ac unigolion eraill gan gynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol, sy'n darparu neu'n comisiynu gofal iechyd ar gyfer cleifion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

dymuniadau amrywiol. Bydd y gwasanaethau'n hawdd eu defnyddio ac yn canolbwyntio ar y claf. Bydd gofal iechyd yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau sy'n hybu lles y cleifion a'r staff ac sy'n parchu anghenion a dymuniadau cleifion unigol gan y byddant wedi'u llunio i ddarparu triniaeth a gofal yn effeithiol a diogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw, a'u glanhau'n dda er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd i gleifion.

- Mae'r ail faes 'Canlyniadau Clinigol' yn nodi:

Bydd y penderfyniadau a'r gwasanaethau gofal iechyd yn seiliedig ar yr hyn y mae tystiolaeth gwaith ymchwil a aseswyd yn briodol yn dangos y bydd yn sicrhau canlyniad effeithiol ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan ystyried eu hanghenion a'u dymuniadau personol. Bydd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau mor gyflym â phosibl, ac ni fydd oedi afresymol yn digwydd ar unrhyw adeg yn ystod y broses ddarparu nac yn ystod eu llwybr gofal.

- Mae'r trydydd maes 'Rheoli Gofal Iechyd' yn nodi'n glir:

Bydd gan ddarparwyr a chomisiynwyr gofal iechyd systemau wedi'u sefydlu sy'n cefnogi arweinyddiaeth ac atebolrwydd rheolaeth a chlinigol ac sy'n canolbwyntio ar anghenion a dymuniadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Bydd arferion gwaith wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau bod uniondeb, sicrwydd ansawdd, dulliau gwella ansawdd a diogelwch y cleifion yn rhan annatod o'r holl arferion, prosesau a gweithgareddau.

- Mae'r pedwerydd maes 'Iechyd y Cyhoedd' yn nodi:

Bydd sefydliadau gofal iechyd yn cydweithio â sefydliadau perthnasol eraill a chymunedau lleol i sicrhau bod rhaglenni a gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu i hyrwyddo, amddiffyn a gwella iechyd, ac a fydd yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac yn helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.

Sicrhau Cydymffurfiad

1.5. O fis Ebrill 2007 ymlaen, mae'n ofynnol i sefydliadau gofal iechyd y GIG yng Nghymru gynnal hunanasesiadau yn erbyn y safonau gofal iechyd a llunio datganiad cyhoeddus blynyddol ar eu perfformiad.

1.6. Mae'n ofynnol i sefydliadau gyflwyno eu datganiad a'u ffurflenni hunanasesu yn ffurfiol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, sy'n gyfrifol am arwain wrth gydlynu profi a dilysu'r ffurflenni, gan ddefnyddio dadansoddiad ar sail risg, yn erbyn ystod o

ffynonellau data. Amlinellir y broses a fabwysiadir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu ffurflenni 2006-2007 yn yr adran a ganlyn.

1.7. O fis Ebrill 2008 ymlaen, bydd cydymffurfio â'r safonau gofal iechyd hefyd yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at Ddatganiadau o Reolaeth Fewnol ac Adroddiadau Blynyddol y sefydliadau.

2. Proses Asesu 2006-2007

Yr Hunanasesiad

2.1. Blwyddyn ddatblygiadol oedd 2006-2007, a gwelwyd proses asesu newydd yn cael ei datblygu a'i phrofi. Rhoddwyd y pwyslais ar ddatblygu proses asesu sy'n gosod y cyfrifoldeb dros gydymffurfio â *Safonau Gofal Iechyd Cymru* yn gadarn ar Fyrddau sefydliadau gofal iechyd ac sy'n cefnogi'r agenda reoli. Mae'r broses yn gam allweddol tuag at sicrhau bod sefydliadau gofal iechyd yn atebol am safon y gwasanaethau y maent yn eu darparu a bod cleifion a'r cyhoedd yn cael eu hysbysu'n well am berfformiad eu darparwyr a'u comisiynwyr gofal iechyd ac, yn bwysicach, y safonau y dylent eu disgwyl.

2.2. Mewn ymgynghoriad â sefydliadau gofal iechyd a phartneriaid allweddol eraill, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi datblygu proses hunanasesu sy'n profi perfformiad yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* ar dair lefel benodol:

- *Corfforaethol* – pa mor dda y mae'r Byrddau yn gwneud eu gwaith mewn perthynas â sicrhau cydymffurfiaid â'r Safonau?
- *Canlyniadau Gweithredol/Clinigol* – sut y gellir sicrhau cydymffurfiaid â'r safonau ar lefel gwasanaeth/ward?
- *Profiad y Claf*² - sut beth yw profiad yw un y claf ac a yw hynny'n gwella?

2.3. Mae meini prawf a chwestiynau asesu wedi'u gosod ar gyfer pob safon ac wedi'u datblygu yn ddull asesu ar y we sy'n caniatáu am gwblhau'r hunanasesiadau ar-lein a llwytho'r dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r atebion a roddir ar gyfer pob cwestiwn. Cefnogir y cwestiynau gan ganllawiau sy'n rhoi arweiniad defnyddiol ar ofynion pob un o'r 32 safon.

2.4. Roedd yn ofynnol i sefydliadau asesu eu cynnydd wrth gyflwyno'r lefel perfformiad uchaf yn erbyn pob un o'r 32 safon gan ddefnyddio matrices aeddfedrwydd. Mae'r matrices aeddfedrwydd yn caniatáu am asesu perfformiad ar y

² Yng nghyd-destun proses asesu'r Safonau Gofal Iechyd defnyddir y term 'defnyddiwr' i ddynodi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a staff.

lefelau corfforaethol, gweithredol a phrofiad y defnyddiwr ar un o bum lefel aeddfedrwydd:

- Ymwybodol
- Ymateb
- Datblygu
- Ymarfer
- Arwain

Rhoddir diffiniad o bob un o'r lefelau aeddfedrwydd hyn yn Atodiad 1.

2.5. Gan ei bod hi'n flwyddyn ddatblygiadol, bu'n rhaid i sefydliadau'r GIG gadw at rai amserlenni tynn ac roedd yn ofynnol iddynt gyflwyno eu hunanasesiad wedi'i gwblhau i AGIC erbyn 30 Mehefin 2007, dri mis ar ôl rhyddhau'r dull asesu. Cyflwynodd Ymddiriedolaeth Gogledd Morgannwg yr hunanasesiad o fewn y dyddiad terfyn a dymunwn gydnabod yr holl waith, ymdrech ac ymrwymiad a ddangoswyd gan Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg wrth sicrhau eu bod yn cadw at y terfynau amser.

Profi a Dilysu

2.6. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi profi a dilysu hunanasesiad Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg, ac mae hyn wedi cynnwys sawl cam:

- *Cam 1* – Dilysiad bwrdd gwaith o'r hunanasesiad gan dîm o adolygwyr sy'n gydweithwyr ac adolygwyr lleyg. Roedd y cam hwn yn cynnwys gwirio pa un a oedd y cwestiynau sy'n cefnogi pob maen prawf wedi'u hateb yn briodol, gan brofi a oedd yr ateb yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth ddigonol a pherthnasol a gwerthuso pa un a oedd yr ateb yn cyd-fynd â'r sgôr aeddfedrwydd a ddarparwyd gan y sefydliad.
- *Cam 2* – Cynhaliwyd cyfarfodydd safoni yn ystod mis Awst er mwyn cymharu a chyferbynnu ymatebion a marciau aeddfedrwydd fesul sefydliad a fesul safon. Roedd y cam hwn o'r broses yn allweddol er mwyn sicrhau cysondeb a safoni'r sgorau.

- *Cam 3* – Ymweliadau safle â sefydliadau i brofi agweddau pwysig ar brofiad y claf/defnyddiwr.

Yr Ymweliad Safle

2.7. Roedd yr ymweliad safle yn un cam o ddilysu a phrofi hunanasesiad Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg ac, fel y nodwyd uchod, roedd yn canolbwyntio ar brofi agweddau allweddol ar brofiad y defnyddiwr. Cynhaliwyd yr ymweliad ar 5 a 6 Medi 2007.

2.8. Ar y Diwrnod Cyntaf a'r Ail Ddiwrnod cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda staff a chleifion ac ar yr Ail Ddiwrnod gwnaed ymweliadau arsylwadol â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys a'r Adran Cleifion Allanol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, a'r ward gofal yr henoed a'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Aberdâr. Yn ychwanegol at hynny cynhaliwyd archwiliadau o ran cofnodion y Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT), hyfforddiant a gwerthuso ar gyfer staff ar ddyletswydd yn yr adrannau/wardiau uchod ar ddiwrnod ein hymweliad. Mae rhaglen waith fanwl ar gyfer yr ymweliadau hyn ar gael ar wefan AGIC www.hiw.org.uk.

Uwchgynadleddau Gofal Iechyd

2.9. Ym mis Awst, fe wnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gydlynu a hwyluso tri chyfarfod rhanbarthol, sef 'Uwchgynadleddau Gofal Iechyd', gan ddwyn ynghyd sefydliadau adolygu ac archwilio er mwyn rhannu gwybodaeth a'i chyfrannu at broses gadarnhau asesu'r Safonau Gofal Iechyd. Mae'r Uwchgynadleddau hyn yn gam allweddol wrth symud tuag at rannu gwybodaeth yn well ar draws sefydliadau adolygu a datblygu cynlluniau archwilio a sicrwydd ar y cyd.

3. Trosolwg o'r Ymddiriedolaeth

3.1 Sefydlwyd **Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg** ar 1 Ebrill 1996. Mae'n darparu gwasanaethau iechyd aciwt, cymunedol a meddwl ar gyfer pobl yng nghymoedd Merthyr, Cynon a Rhymni uchaf yn bennaf.

3.2 Darperir gwasanaethau mewn pedwar ysbyty, pum canolfan iechyd a 17 o glinigau cymunedol. Gweler isod y gwasanaethau a ddarperir yn y pedwar ysbyty:

- Agorwyd **Ysbyty'r Tywysog Siarl** ym 1978. Mae ganddo 434 o welyau, sy'n cynnwys gwelyau aciwt ar gyfer meddyginiaeth integredig, llawfeddygaeth aciwt, trawma ac orthopaedeg, pediatreg, obstetreg a gynaeoleg, uned gofal arbennig i fabanod a llawdriniaeth y genau a'r wyneb. Mae gan yr ysbyty Adran Damweiniau ac Achosion Brys a ward derbyniadau brys brysur. Mae ganddo chwe gwely gofal cardiaidd hefyd a saith gwely yn yr uned therapi dwys ac adran gyffredinol, orthopaedeg, llawdriniaeth eneuol i gleifion allanol. Mae'r holl brif wasanaethau wedi'u lleoli ar y safle gan gynnwys cyfleusterau patholeg a phelydr X ynghyd â gwasanaethau ffisiotherapi, dieteg a therapi galwedigaethol.
- Mae gan **Ysbyty Santes Tudful** saith ward gan gynnwys Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Mae hefyd yn cynnwys adrannau Cyllid a Chyflogres yr Ymddiriedolaeth.
- Mae gan **Ysbyty Aberpennar** Adran Mân Anafiadau, Adran Cleifion Allanol, Adran Radioleg, ward seiciatreg yr henoed a meddygol i gleifion mewnol, ac Adran Ffisiotherapi i Gleifion Allanol.
- Mae **Ysbyty Aberdâr** yn cynnwys 89 gwely ynghyd ag Adran Cleifion Allanol brysur, Uned Mân Anafiadau, Canolfan Blant Kenshole, ward adsefydlu, uned obstetreg wedi'i harwain gan fydwragedd, uned gofal lliniarol a chyfleuster dydd i'r henoed.

Disgwylir i'r Ymddiriedolaeth uno ag Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda ar 1 Ebrill 2008 ac yn ystod yr ymweliad arsylwadol, mynegodd staff a chleifion bryderon ynghylch dyfodol yr Ymddiriedolaeth oherwydd y cynlluniau hyn.

Argymhellwn fod yr Ymddiriedolaeth yn sefydlu dulliau cyfathrebu priodol yn ystod pob cam o'r broses uno er mwyn helpu i leihau unrhyw bryderon.

4. Canfyddiadau - Gan gynnwys Meysydd i'w Gwella ac Arfer Da

4.1 Profiad y Claf

Safon 1

Ymgynghori â'r cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd wrth lunio, cynllunio, darparu, adolygu a gwella'r gwasanaethau gofal iechyd ac wrth eu hintegreiddio â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

S1.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S1.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos bod y Bwrdd yn ymroddedig i gynnwys y cyhoedd a chleifion trwy nifer o ddulliau, megis:

- Ymgysylltu ar draws y gymuned iechyd gyda Byrddau Iechyd Lleol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, ar ddatblygiadau megis Ysbyty newydd Cwm Cynon a chasglu barn i ddylanwadu ar yr adolygiad o wasanaethau iechyd meddwl i oedolion ym Merthyr a Chwm Cynon.
- Y Cynllun Datblygu treigl ar gyfer Rheolaeth Glinigol dros dair blynedd.
- Grŵp Cynnwys a Chyswllt y Cyhoedd yr Ymddiriedolaeth sydd wedi'i hen sefydlu sy'n cynnwys aelodau o Dîm Gweithredol yr Ymddiriedolaeth a chynrychiolwyr o grwpiau gwirfoddol a'r gymuned.
- Datblygu Cymorthfeydd Archwilio Clinigol, sy'n cynnig gwasanaeth galw heibio yn yr ysbytai lle y gall cleifion, y cyhoedd a'r staff gymryd rhan yn uniongyrchol mewn archwiliadau clinigol er mwyn rhoi adborth a dylanwadu ar weithgareddau archwilio clinigol.
- Strategaeth Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (CCC) sy'n amlinellu'r gweithgareddau yr ymgwymerwyd â hwy gyda phartneriaid i gasglu barn ynghylch y gwasanaethau mae'n eu darparu.

S1.3. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Swyddog Cymorth Cleifion sy'n cysylltu â chleifion, gofalwyr, ymwelwyr a staff i weithredu fel porth i fynd i'r afael â phryderon neu ymholiadau. Mae nifer o staff, trwy Raglen Arweinyddiaeth Glinigol Coleg

Brenhinol y Nyrsys, wedi casglu hanesion cleifion sy'n adlewyrchu eu profiad o'r gwasanaeth a ddarperir.

S1.4. Cadarnhaodd ein hymweliad arsylwadol fod nifer o'r dulliau uchod wedi'u sefydlu a nodwyd bod rhai cleifion wedi cael y cyfle i roi adborth am y gwasanaethau a dderbyniwyd. Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) hefyd yn ymweld â'r Ymddiriedolaeth yn fisol ac yn nodi meysydd i'w gwella y mae angen i'r Ymddiriedolaeth weithredu yn eu cylch. Nododd y cleifion fod y staff yn gyfeillgar, yn gymwynasgar ac yn hawdd mynd atynt.

S1.5. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. Serch hynny, y dyddiad ar y strategaeth Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (CCC) a gyflwynwyd i ni oedd 2004-06, felly dylid ei hadolygu a'i diweddarau.

Safon 2

Bydd y gwaith o gynllunio a darparu gofal iechyd:

- a. yn cyd-fynd â phrofiadau, safbwyntiau a dymuniadau'r cleifion a defnyddwyr gwasanaeth;*
- b. yn bodloni anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;*
- c. yn seiliedig ar dystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol; ac*
- ch. yn sicrhau bod pawb yn cael yr un mynediad at wasanaethau.*

S2.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S2.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn ymwneud â chynllunio a darparu gofal iechyd trwy'r canlynol:

- Mae'r Prif Weithredwr yn aelod o Fyrddau Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Lleol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf a grwpiau allweddol eraill.

- Mae Asesiad Anghenion Iechyd y boblogaeth yn sail i Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles y ddau BILI a bydd yr Ymddiriedolaeth yn cyfrannu at y strategaeth ddiwygiedig.
- Integreiddio Cynlluniau Gwasanaeth a Chomisiynu Blyneddol y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghynllun Gweithredol yr Ymddiriedolaeth sy'n cynnwys blaenoriaethau Cenedlaethol a Lleol ac sy'n cael ei fonitro gan Gyfarwyddiaethau a chan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.
- Monitro adroddiadau perfformiad bob mis a'r cerdyn sgorio cytbwys bob chwarter.
- Polisi Gweithredu Canllawiau Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) yr Ymddiriedolaeth, sy'n sicrhau bod canllawiau clinigol perthnasol yn cael eu gweithredu gan ddefnyddio dull systematig.

S2.3. Mae'r Cyfarwyddwr Perfformiad a Gweithrediadau yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â Chyfarwyddiaethau er mwyn monitro perfformiad, a chaiff y staff eu hysbysu a'u briffio am y camau ar ôl cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu nifer o rwydweithiau gydag Ymddiriedolaethau eraill er mwyn sicrhau bod gwasanaethau priodol ar gael i gleifion. Mae gwybodaeth am amserau aros ar gael ar y rhyngwyd.

S2.4. Dangosodd ein hymweliad arsylwadol fod staff yn cael gwybod am ganllawiau cenedlaethol mewn sawl ffordd, megis trwy'r fewnrwyd, cyfarfodydd a thrwy negeseuon e-bost. Roedd rhai staff yn teimlo nad oeddynt bob amser yn derbyn y wybodaeth hon a bod yn rhaid iddynt fynd ati i ddod o hyd i'r wybodaeth drostynt eu hunain.

S2.5. Er ein bod yn gallu cadarnhau asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr, nid oedd cyflwyniad yr Ymddiriedolaeth yn manylu ar sut y byddai'n ymdrin ag unrhyw alwadau neu ofynion a allai fod yn cystadlu yn erbyn ei gilydd sy'n deillio o wahanol safonau, canllawiau neu bolisiâu cenedlaethol, ac am y rheswm hwn ni allwn gytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac ystyriwn ei bod yn **Datblygu** yn y maes hwn.

Safon 3

Dylai cleifion sydd ag anghenion iechyd brys gael mynediad at ofal priodol yn brydlon ac o fewn terfynau amser cenedlaethol a gaiff eu pennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

S3.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S3.2. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â thargedau brys Llywodraeth Cynulliad Cymru (95% o gleifion i dreulio llai na phedair awr yn yr adran damweiniau ac achosion brys ac ni ddylai'r un claf aros am fwy nag wyth awr). Hysbysir y staff am berfformiad yn erbyn y targedau hyn trwy sesiynau briffio Bwrdd yr Ymddiriedolaeth sy'n cael eu rhaedru i'r staff ar ôl cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.

S3.3. Mae'r Ymddiriedolaeth yn profi anawsterau wrth gydymffurfio â'r targedau mynediad brys. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod hyn ac mae cynlluniau wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â'r mater hwn. Perfformiad cyffredinol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2006-2007 oedd 87% o gleifion yn cael eu gweld o fewn 4 awr. Cytunwyd ar gynllun gweithredu gyda Swyddfa Ranbarthol yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae'r perfformiad wedi gwella ers mis Mawrth 2007. Ni wnaeth yr Ymddiriedolaeth fodloni'r targed wyth awr ychwaith ar gyfer yr un cyfnod gyda 3.54% o gleifion yn aros am fwy nag wyth awr.

S3.4. Yn ystod yr ymweliad arsylwadol â'r adran Damweiniau ac Achosion Brys, nid oedd yn amlwg sut yr oedd cleifion yn cael gwybod pa mor hir y byddai'n rhaid iddynt aros gan nad oedd yr amserydd trydanol yn gweithio ac nid oedd yn ymddangos bod y staff yn dweud wrth y cleifion faint o amser y byddai'n rhaid iddynt aros.

S3.5. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, ond ystyriwn mai dim ond **Ymateb** y mae'r Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Dylai'r

Ymddiriedolaeth barhau i fonitro a gwella targedau mynediad brys a sicrhau bod cleifion yn yr adran damweiniau ac achosion brys yn cael gwybod pa mor hir y bydd yn rhaid iddynt aros.

Safon 4

Caiff gofal iechyd ei ddarparu mewn lleoliadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda sydd:

- a. yn hyrwyddo lles cleifion a'r staff;*
- b. yn parchu anghenion gwahanol gleifion, eu preifatrwydd a chyfrinachedd;*
- c. yn ystyried diogelwch y cleifion, y defnyddwyr a'r staff; ac*
- ch. yn darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.*

S4.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S4.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Y Grŵp Mannau a Llety sy'n asesu risgiau ac yn blaenoriaethu cynlluniau cyfalaf Ystadau ac amgylcheddol, sydd wedi'u seilio ar wella gwasanaethau, moderneiddio a chyflwr adeiladau cyn iddynt gael eu cymeradwyo ar lefel Bwrdd.
- Amryw bolisiâu, sy'n adnabod bod angen i'r Ymddiriedolaeth barchu anghenion, preifatrwydd a materion cyfrinachedd gwahanol gleifion.
- Amlinellir y cyfrifoldeb dros ddiogelwch cleifion, defnyddwyr a'r staff yn Strategaeth Rheoli Risgiau yr Ymddiriedolaeth ac mae Cyfarwyddwr Gweithredol dynodedig yn gyfrifol am hyn ac yn adrodd i'r Bwrdd.
- Mae 'desg gymorth' ar gael ar gyfer adrodd ar ddiffygion, megis eitemau cynnal a chadw, gollyngiadau a pheryglon eraill.
- Llinellau atebolrwydd clir ar gyfer materion diogelwch sy'n arwain at y Bwrdd.
- Y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, sy'n cynnwys trawstoriad o staff, sy'n monitro agenda iechyd a diogelwch yr Ymddiriedolaeth.

S4.3. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr heriau sy'n ymwneud â'i hystâd oherwydd oedran rhai o'r adeiladau a'r problemau cyfatebol sy'n gysylltiedig â'r amgylcheddau hyn. Yn ystod y grwpiau ffocws mynegwyd rhai pryderon ynghylch preifatrwydd yn Ysbyty Santes Tudful, ac rydym wedi codi'r rhain gyda'r Ymddiriedolaeth.

S4.4. Nodwyd yn ystod yr ymweliadau arsylwadol bod cleifion a staff ar y cyfan yn teimlo bod y safle'n hawdd ei gyrraedd ac yn addas ar gyfer anghenion gofal iechyd cleifion. Roedd y staff y siaradwyd â hwy o'r farn bod systemau diogelwch digonol ar gael iddynt a'u bod yn teimlo'n ddiogel yn y gwaith. Mynegwyd rhai pryderon gan gleifion ynghylch yr Adran Cleifion Allanol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, a gwelwyd tystiolaeth o'r rhain. Mae'r adran wedi'i lleoli yn y brif dramwyfa i'r ysbyty ac mae'n fan prysur a swnllyd iawn, ac nid yw'r cleifion bob amser yn gallu clywed pan fyddant yn cael eu galw i'r adran.

S4.5. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ddatblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 5

Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn lleoliadau, sydd

- a. yn cael eu cynnal a'u cadw at safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;*
- b. yn gostwng y perygl i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal heintiau cysylltiedig â gofal iechyd, gan leihau nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn;*
- c. yn pwysleisio safonau uchel o hylendid ac yn cydymffurfio â mentrau i annog arferion gorau.*

S5.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S5.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei hymrwymiad at lanweithdra, hylendid a lleihau'r risg o heintiau trwy'r canlynol:

- Polisiâu a gweithdrefnau gweithredol i sicrhau bod amgylcheddau gofal iechyd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda gyda llinellau atebolrwydd clir a monitro rheolaidd trwy'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.
- Sicrhau cefnogaeth yr holl staff a phwysleisio bod pawb yn gyfrifol am gynnal amgylchedd glân i gleifion, ymwelwyr a staff.
- Amryw grwpiau megis y Grŵp Llywio Cyffredinol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr staff ar lefel uwch ar draws yr Ymddiriedolaeth. Y Grŵp Cymhennu sy'n cynnwys cynrychiolwyr ar draws yr holl ddisgyblaethau ac is-grwpiau Cymhennu ar safle pob ysbyty.
- Y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol sy'n arwain ar gyfer rheoli heintiau.
- Strategaeth Glanweithdra, Polisi Cymhennu ac ystod o Bolisiâu a Gweithdrefnau Rheoli Heintiau.
- Y Pwyllgor Rheoli Heintiau: mae'r aelodau'n cynnwys y meddyg a'r nyrs arweiniol ar gyfer rheoli heintiau, gyda chynrychiolwyr o bob Cyfarwyddiaeth, sy'n adrodd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth trwy'r Pwyllgor Rheolaeth Glinigol a Risgiau.
- Asesiad Cronfa Risg Cymru.

S5.3. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgymryd ag amryw archwiliadau glanhau i asesu glanweithdra a llunnir cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella ac adolygir y rhain gan y grŵp amlddisgyblaethol perthnasol. Ymgymerir ag arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid yn flynyddol er mwyn asesu canfyddiad cleifion o lanweithdra a'r gwasanaeth Cymhennu yn yr Ymddiriedolaeth, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn rhan o ymgyrch 'Glanhewch eich Dwylo' yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion.

S5.4. Fel rhan o'r ymweliad arsylwadol fe wnaethom nodi bod y manau yr ymwelwyd â hwy yn lân, heb annibendod ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Nododd y staff a'r cleifion fod y safonau glanweithdra a'r camau rheoli heintiau yn uchel ar y cyfan. Roedd posteri hylendid dwylo wedi'u gosod yn amlwg yn y manau yr ymwelwyd â hwy, a gwelwyd y staff yn glanhau eu dwylo rhwng trin cleifion.

S5.5. Mae hyfforddiant ar gael i staff ar reoli heintiau, ond mae'r nifer sy'n mynychu'r hyfforddiant hwn yn amrywio. Ym meysydd megis Cleifion Allanol a'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys roedd bron i bob aelod o'r staff wedi derbyn hyfforddiant, ond roedd nifer y staff a oedd wedi derbyn hyfforddiant ar ward gofal yr henoed yr ymwelwyd â hi yn llawer is. Nifer isel o uwch staff meddygol sy'n mynychu hyfforddiant ar reoli heintiau hefyd.

S5.6. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr, ond rhaid i'r Ymddiriedolaeth wneud mwy i fynd i'r afael ag anghysondeb yr hyfforddiant rheoli heintiau ar draws y sefydliad.

Safon 6

Mae sefydliadau gofal iechyd, wrth gydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol:

- a. *yn sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau o fewn cyrraedd cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd;*
- b. *yn rhoi gwybodaeth yn brydlon i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth am eu cyflwr, y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu cael yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer darparu ôl-ofal a chymorth; a*
- c. *rhobi cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth i drafod a chytuno ar opsiynau'n ymwneud â'u gofal.*

S6.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S6.2. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol mewn perthynas â gofal cleifion trwy'r canlynol:

- Strategaethau, polisiau a gweithdrefnau i fynd i'r afael ag agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth y sefydliad.

- Y Fforwm Cydraddoldeb sy'n goruchwyllo'r agenda hon, y mae ei aelodau'n cynnwys Cyfarwyddwr Gweithredol ac Anweithredol, Uwch Reolwyr a Sefydliadau'r Staff.
- Mae ystod o wybodaeth am driniaeth, gweithdrefnau a gwasanaethau ar gael i gleifion a chymunedau yn Saesneg.
- Y Polisi Caniatâd sy'n helpu i ddarparu'r fframwaith ar gyfer trafod a chytuno ar opsiynau triniaeth.
- Polisi Cyfathrebu sy'n ymdrin â chyfathrebu â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

S6.3. Nododd y cleifion eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth cyn iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty i gael triniaeth a chadarnhawyd hyn yn ystod yr ymweliad arsylwadol. Roedd y staff yn ystyried bod rhoi gwybodaeth i gleifion yn flaenoriaeth uchel yn yr Ymddiriedolaeth. Mae'r cymorthfeydd archwilio clinigol wedi bod yn ddull defnyddiol ar gyfer rhoi cyfle i gleifion a'r cyhoedd drafod materion sy'n ymwneud ag anghenion amrywiol.

S6.4. Yn ystod ein hymweliad arsylwadol cadarnhawyd bod dolenni clyw ar gael mewn rhai mannau yn yr Ymddiriedolaeth, ond bod angen gwneud mwy mewn mannau megis yr Adran Cleifion Allanol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r gwasanaeth dehongli Llinell Iaith i gynorthwyo gydag unrhyw rwystrau ieithyddol, ond yn ystod yr ymweliad arsylwadol nid oedd nifer o staff yn ymwybodol bod y cyfleuster hwn ar gael. Mynegodd staff bryderon hefyd bod cynnydd wedi bod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn nifer y cleifion nad ydynt yn gallu siarad Saesneg, yn enwedig cleifion Pwylaidd a Phortiwgeaidd, a'r problemau cyfathrebu a achoswyd yn sgil hynny. Nododd staff hefyd y bu'n rhaid iddynt ofyn i aelodau'r teulu gyfieithu mewn sawl achos.

S6.5. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod yn rhaid iddynt wneud mwy i wella mynediad a chyfathrebu ar gyfer grwpiau lleiafrifol ac mae cynlluniau gweithredu wedi'u sefydlu. Mae ein hadolygiad o'r dystiolaeth a'r ymweliad yn dangos bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth a'r cyfathrebu yn Saesneg, ac mae angen i'r Ymddiriedolaeth wneud mwy i fynd i'r afael ag anghenion amrywiol y gymuned

newidiol. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Gorfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol, ond ystyriwn mai dim ond **Ymateb** ydyw ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 7

Mae'r cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys pobl ag afiechydon hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain ac yn cael cyfleoedd ac adnoddau i ddysgu sut i ofalu amdanynt eu hunain.

S7.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymarfer** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S7.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Gweithredu'r Dull Rhaglen Ofal ar gyfer Iechyd Meddwl.
- Cefnogaeth Bwrdd yr Ymddiriedolaeth dros weithredu 'Hanfodion Gofal' i sicrhau bod cleifion yn parhau i fod mor annibynnol ag a ganiateir gan eu cyflwr.
- Rhaglen hyfforddi i gefnogi staff yn y maes hwn.
- Arbenigwyr Nyrsys Clinigol/Ymarferwyr Nyrsys sy'n ymgymryd â gweithgareddau hybu iechyd mewn meysydd penodol.

S7.3. Yn ystod yr ymweliad arsylwadol gwelwyd enghreifftiau o staff yn cefnogi ac yn ymateb i awgrymiadau cleifion ynghylch eu gofal a'u triniaeth. Ond, yn gyffredinol, mae ein hadolygiad o'r dystiolaeth yn dangos er bod camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn a bod y rhain yn cael eu cymhwysu mewn rhai meysydd megis iechyd meddwl, nid ydynt yn cael eu gweithredu'n llawn ar draws y sefydliad. Felly, rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, ond daethom i'r casgliad mai dim ond **Datblygu** ydyw ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 8

Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau:

- a. *bod staff yn trin cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofawyr ag urddas a pharch;*
- b. *bod y staff eu hunain yn cael eu trin ag urddas a pharch waeth beth fo'r gwahaniaethau rhyngddynt;*
- c. *yr eir ati'n briodol i gael caniatâd cyn cysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth a chyn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion; a*
- ch. *bod unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrin yn gyfrinachol, ac eithrio pan fo'r ddeddfwriaeth yn caniatáu ei defnyddio.*

S8.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei fod yn

Datblygu ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymarfer** ar y lefelau Canlyniadau

Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S8.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Y Polisi a'r Weithdrefn Urddas yn y Gweithle.
- Y Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Hyrwyddwyr Cydraddoldeb sy'n rhoi cyngor ar faterion cydraddoldeb ac urddas yn y gweithle.
- Cynyddu ymwybyddiaeth staff o faterion Urddas yn y Gweithle megis yn ystod hyfforddiant sefydlu a thrwy'r llawlyfr staff.
- Hyfforddiant i wneud staff yn ymwybodol o bwysigrwydd trin defnyddwyr ag urddas a pharch.
- Polisi a Gweithdrefn Ganiatâd yr Ymddiriedolaeth a hyfforddiant ar gyfer staff i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r canllawiau ac yn cydymffurfio â hwy.
- Ystod o bolisiau sy'n ymwneud â chyfrinachedd cleifion a rhannu gwybodaeth a hyfforddiant ar gyfer staff i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r canllawiau ac yn cydymffurfio â hwy.
- Y Cyfarwyddwr Meddygol yw Gwarcheidwad Caldicott ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.

S8.3. Cesglir barn staff am y ffordd y maent yn cael eu trin trwy amryw grwpiau a fforymau, megis y Grŵp Lles yn y Gweithle a'r Grŵp Rheoli Straen, a chymerir camau i fynd i'r afael â phryderon.

S8.4. Nodwyd yn ystod yr ymweliad arsylwadol bod cleifion yn teimlo y ceir caniatâd gwybodus cyn rhoi gofal neu driniaeth iddynt a nodwyd bod y staff yn gymwynasgar ac yn esbonio'r hyn a fyddai'n digwydd iddynt. Nododd rhai aelodau o staff ei bod hi'n anodd weithiau i gynnal cyfrinachedd os yw'r manau'n brysur ac os yw ymwelwyr yn bresennol.

S8.5. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymarfer** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 9

Lle bydd bwyd yn cael ei ddarparu bydd systemau ar waith i sicrhau:

- a. *bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n sicrhau deiet gytbwys; a*
- b. *bod gofynion personol, diwylliannol a chlinigol y cleifion o ran deiet yn cael eu bodloni, gan roi unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta a sicrhau bod ganddynt fynediad at fwyd 24 awr y dydd.*

S9.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymarfer** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S9.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Polisiâu Arlwyio a Maeth yr Ymddiriedolaeth sy'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.
- Amryw grwpiau sy'n sicrhau ymgynghori a chydweithio â'r holl adrannau a staff ar wahanol lefelau yn y sefydliad. Y Grŵp Llywio Cyffredinol, y mae ei aelodau'n cynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol, y grŵp Arlwyio a Maeth a'r is-grŵp Maeth ac Archwilio.
- Mae'r cyfrifoldeb dros wasanaethau arlwyio, y polisi maeth a hylendid bwyd wedi'i ddiffinio'n glir ar draws y sefydliad hyd at Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.
- Hyfforddiant i sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â thrafod bwyd wedi'u hyfforddi'n briodol.

- Dadansoddiad maethol o ddietau arbennig i sicrhau bod yr holl ofynion maethol, diwylliannol a chlinigol yn cael eu bodloni, a chynhelir asesiadau gan ddefnyddio'r Dull Sgrinio Diffyg Maeth Cyffredinol (MUST) er mwyn nodi oedolion sydd heb gael digon o faeth neu sydd mewn perygl o ddiffyg maeth neu ordewdra.
- Archwiliadau i weld a yw nifer y cleifion y mae angen cymorth arnynt wrth fwydo yn cael ei ystyried fel rhan o gynllunio'r gweithlu.
- Cymryd rhan ym menter 'amser bwyd a ddiogelir' yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion.

S9.3. Nodwyd yn ystod yr ymweliad arsylwadol bod nifer o'r cleifion yn ystyried bod y bwyd yn dda, er y dywedodd rhai y gallai'r bwyd fod yn oer weithiau pan fyddai yn eu cyrraedd. Mynegodd rhai bryderon ynghylch y dewis cyfyngedig ar gyfer rhai mathau o ddietau, a nododd staff ei bod hi'n anodd weithiau i helpu'r holl gleifion wrth fwydo gan nad oedd digon o staff ar gael bob amser, yn enwedig os oedd nifer fawr o gleifion dibynnol yr oedd angen cymorth arnynt. Mae'r staff wedi datblygu ffyrdd ymarferol o fynd i'r afael â'r materion hyn, ond mae angen i'r Ymddiriedolaeth roi ystyriaeth bellach iddynt.

S9.4. Ar ôl adolygu'r dystiolaeth, teimlwn fod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol, ond oherwydd y materion a nodir uchod, dim ond **Datblygu** ydyw ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 10

Bydd sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau nad yw pobl sy'n cael gofal iechyd yn destun unrhyw wahaniaethu ar sail oed, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd na thueddfryd rhywiol.

S10.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei fod yn **Ymateb** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S10.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Polisi a gweithdrefnau cysylltiedig ynglŷn â'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb.
- Y Pwyllgor Rheolaeth Glinigol a Risgiau sy'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ar y materion hyn.
- Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer staff.
- Hyrwyddwyr Cydraddoldeb sy'n cefnogi ac yn cynyddu ymwybyddiaeth o gydraddoldeb.

S10.3. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n asesu effaith ei pholisïau o ran cydraddoldeb ac mae'n cydnabod bod cynnydd yn y maes hwn wedi bod yn araf. Mae monitro cydraddoldeb ar gyfer cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaethau hefyd yn llai datblygedig ac mae angen mynd i'r afael â hyn yn ystod y flwyddyn nesaf.

S10.4. Roedd ein hymweliad arsylwadol yn cadarnhau asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymateb** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

4.2 Canlyniadau Clinigol

Safon 11

Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod triniaethau a gofal clinigol yn cael eu darparu gan bobl broffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar sail tystiolaeth;
- b. y caiff gofal clinigol a thriniaethau eu cynnal o dan oruchwyliaeth ac arweiniad staff clinigol;
- c. bod clinigwyr yn parhau i ddiweddarau eu sgiliau a'r technegau sy'n berthnasol i'w gwaith, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid; a
- ch. bod clinigwyr yn archwilio ac yn adolygu'r gwasanaethau clinigol yn rheolaidd.

S11.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S11.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos bod gofal clinigol a thriniaethau yn cael eu cyflwyno'n briodol trwy'r canlynol:

- Strategaeth Archwilio ac Effeithiolrwydd Clinigol sy'n ceisio hyrwyddo darparu arfer wedi'i seilio ar dystiolaeth.
- Strategaeth Arfer wedi'i Seilio ar Dystiolaeth sy'n hyrwyddo addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol gofal iechyd.
- Pwyllgor Archwilio ac Effeithiolrwydd Clinigol sydd â swyddogaeth ganolog mewn hyrwyddo arfer wedi'i seilio ar dystiolaeth.
- Rhaglen Archwilio ac Effeithiolrwydd Clinigol sy'n dangos cyfraniad at weithgareddau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol.
- Datblygu meini prawf asesu i'w defnyddio gan glinigwyr fel bod gweithgareddau archwilio ac effeithiolrwydd clinigol yn gyson ac yn drwyadl.
- Trefniadau ar gyfer gwerthusiadau, goruchwyliaeth glinigol a sicrhau bod safonau proffesiynol yn cael eu bodloni.
- Pwyllgor Hyfforddiant ac Addysg sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol sgiliau'r gweithlu.

S11.3. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu nifer o wahanol raglenni hyfforddi sy'n cynnwys sgiliau arweinyddiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol Coleg Brenhinol y Nyrsys, Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol Therapi a Rhaglen beilot ar gyfer Datblygu Rheolwyr. Mae nifer o weithgareddau hyfforddi eraill ar gael hefyd i glinigwyr er mwyn iddynt ddiweddarau eu sgiliau a chymryd rhan mewn adolygiadau gan gydweithwyr.

S11.4. Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth Gymorthfeydd Archwilio Clinigol yn 2005 fel ffordd newydd ac arloesol o annog cleifion a'r cyhoedd i gymryd rhan mewn mentrau gwella ansawdd. Mae hwyluswyr yn sefydlu cymorthfeydd 'galw heibio' ym mhrif dramwyfa'r ysbyty yn rheolaidd er mwyn darparu gwybodaeth a chymryd rhan mewn archwilio ac effeithiolrwydd clinigol, gan roi adborth i gleifion a'r cyhoedd am ganlyniadau'r gweithgareddau hyn.

S11.5. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos arfer da sylweddol yn y maes archwilio ac effeithiolrwydd clinigol, ond mae'r dystiolaeth i gefnogi'r gweithgareddau hyfforddi yn wannach, gyda niferoedd cyfyngedig o staff yn nodi eu bod wedi cael gwerthusiad ac yn cael dilyn rhai cyrsiau hyfforddi. Am y rheswm hwn, rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr, ond ystyriwn mai dim ond **Datblygu** ydyw ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol gan nad oedd yr ymateb yn manylu ar dystiolaeth o welliant parhaus.

Safon 12

Bydd sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael triniaeth a gofal effeithiol sydd:

- a. *yn cydymffurfio ag arfarniadau technegol a gweithdrefnau ymyrryd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE), ac argymhellion Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG);*
- b. *yn seiliedig ar ganllawiau ac arferion da y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, fel y'u diffiniwyd yn Fframweithiau'r Gwasanaeth Cenedlaethol, canllawiau clinigol NICE, y cynlluniau cenedlaethol a'r canllawiau ar ddarparu gwasanaethau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;*
- c. *yn ystyried anghenion a dymuniadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol y cleifion; ac*

ch. yn integredig er mwyn darparu un gwasanaeth ar gyfer yr holl sefydliadau sydd i'w cynnwys, gan gynnwys sefydliadau gofal cymdeithasol.

S12.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S12.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Trefniadau cadarn i gefnogi gweithredu canllawiau NICE a gwaith cenedlaethol arall sy'n gysylltiedig ag archwilio.
- Adroddir ar anghenion cleifion mewn perthynas â gofal a thriniaeth trwy'r Pwyllgor Archwilio ac Effeithiolrwydd Clinigol ac yna i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.
- Gweithredu archwiliad 'Hanfodion Gofal' ac mae cynllun gweithredu i'w ddatblygu i sicrhau yr eir i'r afael â chanfyddiadau'r archwiliad hwn.
- Cydweithio â sefydliadau eraill wrth ddatblygu gofal a thriniaeth effeithiol didor, megis y Llwybr Gofal Integredig ar gyfer Cyflyrau Meddygol Clefydon Cronig.
- Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn gyfrifol am Lwybrau Gofal Integredig ar lefel y Bwrdd.
- Grŵp Llywio Llwybrau Gofal Integredig er mwyn hyrwyddo datblygu a gweithredu Llwybrau Gofal Integredig yn yr Ymddiriedolaeth.

S12.3. Nododd yr Ymddiriedolaeth yn ei asesiad fod y staff wedi'u paratoi ac yn cael eu cefnogi i addasu i wahanol anghenion cleifion trwy werthusiadau a hyfforddiant. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol yn safon 11, dim ond nifer cyfyngedig o staff sydd wedi derbyn gwerthusiad, ac felly rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr, ond yn ystyried mai dim ond **Datblygu** ydyw ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

Safon 13

Bydd gan sefydliadau gofal iechyd, sydd naill ai'n arwain neu'n cyfrannu at waith ymchwil, systemau i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu cymhwyso'n gyson.

S13.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S13.2. Mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau cydymffurfiaid â'r fframwaith llywodraethu ymchwil trwy'r canlynol:

- Bod Ymchwil a Datblygu yn rhan o'r Strwythur Rheolaeth Glinigol.
- Bod y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu yn adrodd i'r Pwyllgor Rheolaeth Glinigol a Risgiau.
- Arweinyddiaeth gan y Cyfarwyddwr Meddygol.
- Strategaeth Ymchwil a Datblygu, sy'n arwain ei hymchwil, gweithgareddau cysylltiedig a pholisïau i gefnogi'r broses, e.e. rheolaeth ariannol yr ymchwil.
- Proses lem i sicrhau bod yr holl ymchwil arfaethedig yn cydymffurfio â llywodraethu ymchwil a deddfwriaeth gysylltiedig.

S13.3. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal cynhadledd ymchwil a datblygu bob blwyddyn i rannu gwaith ymchwil a gwobrwyo arfer da o ran ymchwil. Mae Cydlynnydd Ymchwil a Datblygu'r Ymddiriedolaeth yn aelod o Fforwm Ymchwil a Datblygu Cymru Gyfan.

S13.4. Cefnogir ymchwilwyr trwy hyfforddiant ar-lein, amryw ddogfennau i sicrhau bod ymchwilwyr yn ymwybodol o'r fframwaith llywodraethu ymchwil yn yr Ymddiriedolaeth, a chysylltiadau â chyrсияu hyfforddi allanol. Mae systemau wedi'u sefydlu i sicrhau bod gweithgareddau llywodraethu ymchwil yn effeithio ar brofiad y claf, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y gellir gwneud gwelliannau pellach yn y maes hwn.

S13.5. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Chorfforaethol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Ystyriwn fod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymarfer** yn gryf iawn ar y lefel Gorfforaethol gyda thystiolaeth glir o arfer arloesol a rhannu ar draws y sefydliad a'r tu hwnt iddo, sy'n golygu ei fod mewn sefyllfa dda i fod yn sefydliad sy'n **Arwain** yn y maes hwn yn y dyfodol.

4.3 Rheoli Gofal Iechyd

Safon 14

Mae sefydliadau gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch ac iechyd y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parchu'r deddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.

S14.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S14.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cymeradwyo'r Polisi Iechyd a Diogelwch, y Polisi Risgiau a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a thrwy'r trefniadau rheolaeth glinigol a chorfforaethol yn yr Ymddiriedolaeth.
- Cyfarwyddiaethau yn rhoi sicrwydd o gydymffurfio â deddfwriaeth trwy eu trefniadau rheoli.
- Hyfforddiant ar gyfer staff, gan gynnwys, diogelwch rhag tân a sefydlu.

S14.3. Mae grŵp o gynrychiolwyr diogelwch staff sy'n ymgymryd ag archwiliadau rheolaidd ac yn adrodd ar y canlyniadau i'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

S14.4. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr, ond ystyriwn mai dim ond **Datblygu** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, oherwydd nid yw'r dystiolaeth yn dangos yn llawn sut mae'r staff yn cael gwybod am yr holl ofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â rheoli risgiau.

Safon 15

Mae sefydliadau gofal iechyd, gan gydnabod y gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, yn sicrhau bod cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:

- a. yn gallu rhoi adborth ar eu profiadau ac ansawdd y gwasanaethau;*
- b. yn cael sicrwydd bod eu cwynion yn cael sylw prydlon a thrylwyr yn unol â'r weithdrefn;*
- c. yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gyfer cwynion a ddarperir gan Gyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru; ac*
- ch. yn cael sicrwydd bod y sefydliadau yn ymateb i unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.*

S15.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S15.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Mae'r Prif Weithredwr yn adolygu'r holl ymatebion i gwynion.
- Cyflwyno adroddiadau rheolaidd, sy'n cynnwys ystadegau ar amserau ymateb, tueddiadau, camau a gymerwyd a pherfformiad y gyfarwyddiaeth, i Bwyllgor Rheolaeth Glinigol a Risgiau yr Ymddiriedolaeth.
- Cyflwyno adroddiad Blynyddol ar gwynion, canmoliaeth a phryderon eraill i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.
- Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Cleifion yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar bryderon ehangach ac adborth gan gleifion.
- Mae dalenni cwynion ar gael yn holl fannau cyhoeddus yr Ymddiriedolaeth ac ar y wefan fel bod y cyhoedd yn gwybod sut y gallant ddod â'u pryderon at sylw'r sefydliad. Mae'r dalenni hefyd yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y Cyngorau Iechyd Cymuned Lleol ac Eiriolwyr ar gyfer Cwynion.
- Amryw sesiynau hyfforddi.
- Polisi a Gweithdrefn Gwyno.

S15.3. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos bod camau wedi'u cymryd o ganlyniad i gwynion. Er enghraifft, o ganlyniad i dueddiadau a oedd yn ymwneud ag

agwedd a chyfathrebu gwael, mynychodd rhai aelodau o staff gwrs ar 'Greu Diwylliant o Ofal' i wella eu sgiliau cyfathrebu.

S15.4. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 16

Mae gan sefydliadau gofal iechyd systemau ar waith:

- a. i nodi pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gellir eu cofnodi, a dysgu ganddynt;*
- b. i adrodd digwyddiadau i System Genedlaethol Adrodd a Dysgu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a sefydliadau eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;*
- c. dangos eu bod yn gwella eu harferion ar sail gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol a rennir sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddigwyddiadau; a*
- ch. sicrhau bod pobl yn gweithredu yn ôl hysbysiadau a rhybuddion diogelwch, a negeseuon eraill yn ymwneud â diogelwch y cleifion, o fewn y terfynau amser.*

S16.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S16.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn diweddariadau rheolaidd gan y Pwyllgor Rheolaeth Glinigol a Risgiau, sy'n un o'i Is-bwyllgorau ffurfiol, er mwyn rhoi sicrwydd bod systemau wedi'u sefydlu i sicrhau yr adroddir am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion.
- Ymgymerir â'r gweithgareddau gweithredol gan y Grŵp Adolygu Risgiau Clinigol sy'n gyfrifol am adolygu'r holl ddigwyddiadau diogelwch, hawliadau a chwynion sy'n ymwneud â chleifion.
- Panel Adolygu Hawliadau.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro niferoedd a thueddiadau o ran adrodd am ddigwyddiadau i fesur cadernid y system.

- Aseidiadau Cronfa Risg Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn uwchlwytho ei hadroddiadau am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â chleifion i'r NPSA bob mis.
- Mae profiadau lleol a chenedlaethol a gwybodaeth am ddigwyddiadau yn cael eu hadolygu gan y grŵp perthnasol.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro dysg yn sgil adrodd ar ddigwyddiadau i sicrhau bod camau unioni wedi'u cymryd.
- Monitro cydymffurfio â hysbysiadau a rhybuddion am ddiogelwch cleifion.
- Hyfforddiant i staff mewn adrodd ar ddigwyddiadau a pheryglon, asesu risgiau ac ymchwilio i ddigwyddiadau.

S16.3. Roedd yr ymweliad arsylwadol yn cadarnhau'r trefniadau uchod a nodwyd bod y staff yn teimlo bod diwylliant agored o ddysgu yn yr Ymddiriedolaeth o ran adrodd ar ddigwyddiadau. Nododd rhai staff nad oeddynt bob amser yn derbyn adborth ar ddigwyddiadau.

S16.4. Roedd y dystiolaeth a adolygwyd yn nodi bod systemau cadarn wedi'u sefydlu er mwyn adrodd ar ddigwyddiadau yn fewnol ac yn allanol.

S16.5. Yn ystod yr ymweliad arsylwadol nodwyd pryder posibl ynghylch diogelwch cleifion a mynegwyd hyn i'r Cyfarwyddwr Nyrsio. Mynegodd staff bryderon ynghylch prosesu canlyniadau gwaed y tu allan i oriau (yn benodol ar ôl hanner nos) ac y gallai fod oedi weithiau. Gallai hyn fod oherwydd y dull o nodi'r hyn sy'n gais brys a'r hyn sy'n gais arferol am ddadansoddiad gan y labordy, a dylai'r Ymddiriedolaeth ymchwilio i hyn ymhellach er mwyn egluro'r sefyllfa a diweddarau'r staff ynglŷn â'r weithdrefn i sicrhau bod y sefyllfa yn cael ei datrys.

S16.6. Rydym yn cytuno ag aseiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol, ond oherwydd y rhesymau a nodir uchod, ystyriwn mai dim ond **Datblygu** yw'r Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 17

Bydd sefydliadau gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ddelio â sefydliadau eraill.

S17.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S17.2. Mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau cydymffurfiad â'r canllawiau ar amddiffyn plant trwy'r canlynol:

- Amryw strategaethau a pholisïau, megis Strategaeth Amddiffyn Plant yr Ymddiriedolaeth, y Polisi Plant a Phobl Ifanc a'r Polisi ar gyfer Gofal wrth Dderbyn a Rhyddhau Plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.
- Sesiwn ddatblygu ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar amddiffyn plant i gynyddu ymwybyddiaeth ar lefel Bwrdd.
- Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio yn cynrychioli'r Ymddiriedolaeth ar y Bwrdd Lleol Diogelu Plant.
- Mae Fforwm Amddiffyn Plant yr Ymddiriedolaeth, sy'n adrodd trwy'r Strwythur Rheolaeth Glinigol, yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd o ran cydymffurfio â'r canllawiau amddiffyn plant.

S17.3. Mae hyfforddiant mewn amddiffyn plant ar gael ar wahanol lefelau. Yn ystod yr ymweliad arsylwadol, canfuom fod yr aelodau o staff yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys/Uned Mân Anafiadau wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant, ond nad oedd yr holl aelodau staff yn yr Adran Cleifion Allanol wedi derbyn unrhyw fath o hyfforddiant amddiffyn plant.

S17.4. Mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau cydymffurfiad â'r canllawiau ar amddiffyn oedolion agored i niwed trwy'r canlynol:

- Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed – Polisi a Gweithdrefnau Rhyngasiantaethol ar gyfer Ymateb i Gamdriniaeth Honedig a Gofal Amhriodol o Oedolion Agored i Niwed yn Ne Cymru.

- Sesiwn ddatblygu ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar amddiffyn oedolion agored i niwed i gynyddu ymwybyddiaeth ar lefel y Bwrdd.
- Cymryd rhan mewn Pwyllgor Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.
- Grŵp Amddiffyn Oedolion yr Ymddiriedolaeth, sy'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Nyrsio.

S17.5. Mae hyfforddiant i gynorthwyo staff i gydymffurfio â chanllawiau amddiffyn oedolion agored i niwed ar gael ar wahanol lefelau. Yn ystod yr ymweliad arsylwadol nodwyd bod staff nyrsio yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys/Uned Mân Anafiadau wedi derbyn hyfforddiant, ond nid staff meddygol, ac ychydig iawn o'r staff yn yr Adran Cleifion Allanol neu'r ward gofal yr henoed oedd wedi derbyn hyfforddiant. Mae hyn yn achos pryder penodol gan ei bod yn bosibl bod y cleifion yn y manau hyn yn fwy agored i niwed, a dylai'r Ymddiriedolaeth fynd i'r afael â hyn.

S17.6. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr, ond oherwydd y materion sy'n ymwneud â hyfforddiant, ac yn benodol hyfforddiant oedolion agored i niwed, ystyriwn mai dim ond **Datblygu** ydyw ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

Safon 18

Mae sefydliadau gofal iechyd wedi cynllunio a pharatoi ymateb trefnus i ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau arferol, ac wedi ymarfer yr ymateb lle bo'n ofynnol.

S18.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S18.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Y Cynllun Digwyddiad Mawr.

- Adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.
- Ymarferion bwrdd gwaith gydag ystod o staff, e.e. Ymarfer 'Viper' (ymarfer cynllun fflw pandemig amlasiantaethol).

S18.3. Er ei bod hi'n amlwg bod systemau wedi'u sefydlu, nid yw'n glir ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol a yw gwelliannau parhaus yn cael eu gwneud, gan na chyflwynwyd tystiolaeth sylweddol i brofi hyn. Felly, rydym yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol, ond yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 19

Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod cyn lleied o beryglon â phosibl yn gysylltiedig â chaffael a defnyddio dyfeisiau meddygol;*
- b. bod dyfeisiau meddygol aml dro yn cael eu diheintio'n briodol cyn eu defnyddio, a bod peryglon sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau a'r prosesau diheintio yn cael eu rheoli'n effeithiol;*
- c. bod materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch meddyginiaethau yn cael eu rheoli; a*
- ch. bod y gwaith o atal, trin a thrafod, cludo a gwaredu gwastraff a'r gwaith o'i gadw ar wahân yn cael ei reoli fel bod cyn lleied â phosibl o beryglon i iechyd a diogelwch y staff, y cleifion a'r cyhoedd ac i'r amgylchedd.*

S19.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S19.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Y Grŵp Dyfeisiau Meddygol, sy'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Meddygol, ac sy'n goruchwylio pob agwedd ar gaffael offer meddygol, cost, hyfforddiant a chynnal stocrestr.
- Polisi ar gyfer Rheoli Dyfeisiau Meddygol, ynghyd â nifer o weithdrefnau, canllawiau a phrotocolau cysylltiedig eraill.

- Dewisir a chaffaelir yr holl ddyfeisiau ac offer meddygol yn unol â pholisi'r Ymddiriedolaeth, sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth a gofynion arfer gorau.
- Proses glir a gefnogir gan bolisiau perthnasol ar gyfer rheoli diheintio dyfeisiau meddygol aml dro.
- Hyfforddiant ac asesiad gallu ar gyfer yr holl staff sy'n gyfrifol am ddiheintio dyfeisiau meddygol.
- Polisi Rheoli Meddyginiaethau a gweithdrefnau ategol ar gyfer pob agwedd ar reoli meddyginiaethau.
- Llinell atebolrwydd clir yn arwain at Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli meddyginiaethau, gyda'r Pwyllgor Rheoli Meddyginiaethau yn cyflawni swyddogaeth allweddol wrth sicrhau bod trefniadau digonol wedi'u sefydlu.
- Polisiau a gweithdrefnau sy'n sicrhau cydymffurfiad â gofynion statudol a chanllawiau'r GIG ar reoli gwastraff gofal iechyd yn ddiogel.
- Grŵp Llywio Rheolaeth Amgylcheddol sy'n sicrhau bod prosesau digonol wedi'u sefydlu.

S19.3. Adroddir am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â defnyddio dyfeisiau meddygol, rheoli meddyginiaethau a rheoli gwastraff trwy system adrodd am ddigwyddiadau'r Ymddiriedolaeth. Dengys y dystiolaeth bod yr Ymddiriedolaeth wedi adolygu'r digwyddiadau hyn ac wedi nodi meysydd i'w gwella ac wedi datblygu'r camau hyn.

S19.4. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 20

Mae sefydliadau gofal iechyd yn mynd ati i wella'r gofal ar gyfer cleifion a boddhad y staff yn barhaus, gan ddefnyddio arferion gorau wrth reoli adnoddau dynol.

S20.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S20.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Annog diwylliant o gyfrifoldeb a pherchnogaeth gan staff, a amlygir yng Nghynllun Datblygu Rheolaeth Glinigol yr Ymddiriedolaeth.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda chynrychiolwyr ar ochr y Staff a'u cynnwys ym mhrosesau'r sefydliad ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- Mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ac yn sicrhau cydymffurfiaid ag arfer gorau, a gosodir y cyfeiriad strategol gan Strategaeth 'Cynllun Gwaith' Cymru Gyfan.
- Adroddiadau rheolaidd at Fwrdd yr Ymddiriedolaeth i sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu'n llawn ynghylch cynnydd.

S20.3. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnwys y staff yn rheolaeth ariannol y sefydliad, trwy ofyn iddynt gyfrannu unrhyw syniadau ar gyfer arbed costau. Arweiniodd hyn at ddatblygu nifer o brosiectau a sicrhau arbedion ariannol. Cadarnhawyd yn ystod yr ymweliad arsylwadol bod y staff ar y cyfan yn teimlo y gallent gyfrannu at wasanaethau a dylanwadu arnynt. Fodd bynnag, nododd rhai aelodau o staff eu bod yn teimlo bod rhai grwpiau o staff yn cael mwy o gyfleoedd a dylanwad nag eraill.

S20.4. Nodwyd o'r dystiolaeth y bydd gwerthuso a chynllunio datblygiad personol yn parhau i gryfhau gwaith yr Ymddiriedolaeth yn y maes hwn. Yn ystod yr ymweliad arsylwadol, ychydig iawn o staff y siaradwyd â hwy a oedd wedi cael gwerthusiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Felly ystyriwn mai dim ond **Datblygu** yw'r Ymddiriedolaeth ar bob un o'r tair lefel.

Safon 21

Mae sefydliadau gofal iechyd:

- a. yn cynnal yr holl gamau gwirio gofynnol cyn cyflogi ac yn sicrhau bod yr holl staff cymwys, boed yn gyflogedig neu ar gontract, yn cael eu cofrestru â'r sefydliadau perthnasol;*
- b. yn gofyn i'r holl staff proffesiynol cyflogedig gadw at eu codau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol; ac*
- c. yn mynd i'r afael os bydd angen â grwpiau lleiafrifol a dangynrychiolir.*

S21.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S21.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Gweithdrefnau Recriwtio a Dethol Staff yr Ymddiriedolaeth, sy'n nodi sut y bydd cymwysterau a sgiliau ymgeiswyr yn cael eu harchwilio cyn cyflogi.
- Polisi a Gweithdrefn Swyddfa Cofnodion Troseddol.
- Y rheolwr llinell sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan y staff y Cofrestriad Proffesiynol priodol.
- Mae systemau wedi'u sefydlu i nodi ac ymdrin â chamymddygiad proffesiynol.
- Mae gan y Cyfarwyddwr Nyrsio a'r Cyfarwyddwr Meddygol gyfrifoldeb dirprwyol i roi cyngor ac arweiniad proffesiynol i'r Prif Weithredwr.
- Fel rhan o Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Ymddiriedolaeth, mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gyfansoddiad gweithlu'r Ymddiriedolaeth.

S21.3. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio gyda phartneriaid lleol, megis y Ganolfan Byd Gwaith a Remploy, er mwyn cynyddu nifer y bobl anabl a gyflogir trwy ddatblygu cwrs cyn cyflogi ar gyfer pobl sy'n ddi-waith yn yr hirdymor, ac mae wedi derbyn gwobrau gan Remploy am ei gwaith yn y maes hwn.

S21.4. Yn ystod yr ymweliad arsylwadol canfuwyd bod tua thri chwarter o'r staff wedi cael archwiliad Swyddfa Cofnodion Troseddol.

S21.5. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 22

Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau bod staff:

- a. yn cael eu recriwtio'n briodol, eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer y gwaith;*

- b. *yn cymryd rhan mewn rhaglenni cynefino a rhaglenni hyfforddi gorfodol; ac*
- c. *yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus.*

S22.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S22.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Dadansoddiad anghenion hyfforddi sy'n nodi blaenoriaethau hyfforddi statudol a gorfodol.
- Pwyllgor Hyfforddiant ac Addysg sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol y maes gwaith hwn.
- Nodir datblygiad proffesiynol parhaus trwy'r system werthuso.
- Mae presenoldeb ar gyrsiau hyfforddi'n cael ei fonitro trwy system ar-lein.

S22.3. Mae'r Ymddiriedolaeth yn y broses o gyflwyno'r system werthuso Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth ar draws yr Ymddiriedolaeth a bu peth oedi ynglŷn â hyn, ac felly, fel y crybwyllwyd eisoes yn safon 21, nid yw nifer o staff wedi derbyn gwerthusiad yn ddiweddar.

S22.4. Yn ystod yr ymweliad arsylwadol daeth yn amlwg bod rhai materion yn bodoli yn ymwneud â hyfforddiant. Yn gyntaf, nododd staff o'r holl ddisgyblaethau ei bod hi'n aml yn anodd iddynt fynychu hyfforddiant. Y rhesymau dros hyn oedd y gallai gael ei ohirio weithiau ac nid oedd rhai aelodau o staff yn gallu cael eu rhyddhau o'r ward, gan nad oedd neb i gyflenwi ar eu rhan. Yn ail, ymddengys nad oedd y staff yn glir ynghylch yr hyn a oedd yn hyfforddiant gorfodol a'r hyn nad oedd yn orfodol.

S22.5. Felly, rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol, ond ystyriwn mai dim ond **Ymateb** y mae'r Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 23

Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau bod staff yn cael cymorth gan:

- a. brosesau sy'n caniatáu iddynt fynegi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar y broses ddarparu, y triniaethau neu'r broses reoli, a hynny'n gyfrinachol a heb beryglu eu safle; a chan*
- b. raglenni datblygu sefydliadol a rhaglenni datblygu personol sy'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff.*

S23.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S23.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Polisi a Gweithdrefn Chwythu'r Chwiban yr Ymddiriedolaeth, sy'n cefnogi staff sy'n dymuno mynegi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar y gwasanaeth, dulliau darparu, triniaeth neu reolaeth.
- Polisi a gweithdrefn Adrodd am Ddigwyddiadau neu Beryglon yr Ymddiriedolaeth, sy'n galluogi staff i adrodd am unrhyw ddigwyddiadau sy'n achosi pryder.

S23.3. Yn ystod proses sefydlu'r Ymddiriedolaeth, anogir staff i godi unrhyw faterion sy'n achosi pryder ac mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi y cynhelir cyfrinachedd.

S23.4. Er mwyn cydnabod cyfraniad staff yn yr Ymddiriedolaeth cynhelir nifer o ddigwyddiadau, megis Diwrnod Dathlu, sy'n cydnabod cyfraniad y staff at y sefydliad, a Chynhadledd Nyrsio chwemisol.

S23.5. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr, ond ar ôl adolygu'r dystiolaeth ni dderbyniwyd enghreifftiau o welliant parhaus ac felly rydym hefyd yn ystyried mai **Datblygu** y mae'r Ymddiriedolaeth ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol.

Safon 24

Mae sefydliadau gofal iechyd yn cydweithio â phartneriaid gofal cymdeithasol ac eraill i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth drwy:

- a. fod â gweithlu sydd â'r gymysgedd briodol o sgiliau ac sy'n adlewyrchu'r gymuned yn gyffredinol; a*
- b. sicrhau bod y gwasanaethau'n gwella'n barhaus drwy ddatblygu ffyrdd gwell o weithio.*

S24.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S24.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Mae'r Prif Weithredwr yn aelod o Fyrddau Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Lleol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf a grwpiau allweddol eraill.
- Mae'r Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn seiliedig ar asesiad cynhwysfawr a chadarn o anghenion iechyd.

S24.3. Mae Rheolwr Cynllunio'r Ymddiriedolaeth yn aelod gweithredol o'r Tîm Cynllunio Strategol ar gyfer Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, ac ar hyn o bryd maent yn gweithio ar ganllawiau newydd ac yn datblygu Strategaeth newydd ar gyfer 2008-2011.

S24.4. Dangosodd y dystiolaeth enghraifft o gydweithio gan gynnwys cynllunio'r gweithlu yn y gwasanaethau iechyd meddwl, ac enghreifftiau eraill o fentrau ar y cyd rhwng asiantaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac eraill, megis y Ganolfan Iechyd a Lles, a fydd yn dwyn ynghyd gwasanaethau o'r sector iechyd, yr Awdurdod Lleol a'r sector gwirfoddol.

S24.5. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr. Fodd bynnag, ystyriwn mai dim ond **Ymateb** y mae'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol

oherwydd y dystiolaeth gyfyngedig i ddangos cydweithio mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu.

Safon 25

Mae sefydliadau gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal ar gyfer cleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.

S25.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Datblygu** ar y lefel canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S25.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Cynllun Datblygu a Gweithredu Lleol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg (ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd am ei fod yn cael ei adolygu).
- Grŵp Llywio Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yr Ymddiriedolaeth sy'n darparu sicrwydd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.
- Hyfforddiant i staff.
- Sicrhau bod staff yn gallu cael gafael yn y wybodaeth y mae ei hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau yn llwyddiannus.

S25.3. Ymgynghorir â chyfarwyddiaethau cyn cynnwys gofynion newydd yn y cynlluniau gweithredol, sy'n sicrhau bod gofynion adrannol yn cael eu cynnwys. Ystyrir integreiddio'r gwahanol systemau hefyd a sut y byddant yn cyd-fynd â'i gilydd.

S25.4. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr ac yn **Datblygu** ar lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Rydym hefyd yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol gan na welwyd tystiolaeth sylweddol o welliant parhaus yn ystod ein hadolygiad ac am fod Cynllun Datblygu a Gweithredu Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg Lleol yr Ymddiriedolaeth ar ffurf ddrafft.

Safon 26

Mae gan sefydliadau gofal iechyd brosesau rheoli cofnodion effeithiol wedi'u sefydlu i sicrhau:

- a. bod sefydliad, o'r foment y caiff cofnod ei greu nes iddo gael ei ddileu, yn diweddarau'r wybodaeth i ateb y diben gweithredol, ac yn dileu'r wybodaeth yn briodol pan na fo'i hangen mwyach arnynt; a*
- b. bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol.*

S26.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S26.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Strategaeth Rheoli Cofnodion (sydd i'w hadolygu ym mis Mai 2007) sy'n ymdrin â phob agwedd ar reoli'r holl gofnodion ac sy'n amlinellu'r nodau strategol ar gyfer rheoli cofnodion yn effeithiol. Cefnogir y strategaeth hon gan bolisi a gweithdrefnau gweithredol.
- Hysbysu'r staff am bwysigrwydd arferion da o ran rheoli cofnodion.
- Mae Pwyllgor Cofnodion Iechyd yr Ymddiriedolaeth, sydd â chyfrifoldeb dirprwyol dros reoli cofnodion iechyd yr Ymddiriedolaeth, yn adrodd trwy Strwythur Rheolaeth Glinigol yr Ymddiriedolaeth.
- Mae rheoli cofnodion yn cael ei fonitro trwy weithgaredd archwilio.

S26.3. Yn ystod yr ymweliad arsylwadol gwelwyd bod cyfrinachedd cofnodion cleifion yn cael ei gynnal yn yr holl fannau yr ymwelwyd â hwy.

S26.4. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel, ond dylid adolygu'r Strategaeth Rheoli Cofnodion a'i diweddarau cyn y cyflwyniad nesaf.

Safon 27

Mae trefniadau llywodraethu ar sail arferion da wedi'u sefydlu sydd:

- a. yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a clinigol cadarn;*
- b. yn sicrhau proses gadarn ar gyfer rheolaeth ariannol, ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;*
- c. yn mynd ati i helpu'r holl staff i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored ac i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.*
- ch. yn mynd ati'n systematig i gynnal asesiadau risg a rheoli risg; ac*
- d. yn cael eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.*

S27.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S27.2. Dangosodd yr Ymddiriedolaeth fod trefniadau Llywodraethu wedi'u sefydlu trwy'r canlynol:

- Arweinir strwythurau llywodraethu'r sefydliad gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae'r rhain wedi'u cryfhau a'u gwella yn ystod 2006-07 gyda chyfres o sesiynau datblygu i wella ymwybyddiaeth o ofynion llywodraethu ac i gefnogi didwylledd, cywirdeb ac atebolrwydd.
- Mae Gorchmynion Sefydlog yr Ymddiriedolaeth yn amlinellu trefniadau Llywodraethu'r Ymddiriedolaeth.
- Mae'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Atebol, yn cyflawni ei gyfrifoldebau trwy gyfrifoldebau dirprwyol gan ddefnyddio strwythur rheolaeth weithredol glir.
- Grŵp Rheolaeth Ariannol, sydd â chylch gorchwyl i ddatblygu a chryfhau rheolau ariannol cyffredinol yr Ymddiriedolaeth.
- Pwyllgor Rheolaeth Glinigol a Risgiau sy'n goruchwyllo trefniadau rheolaeth glinigol a risgiau'r sefydliad ac sy'n sicrhau bod yr agendâu hyn yn cael eu hintegreiddio.
- Aseiad Cronfa Risg Cymru, a nododd mai Gogledd Morgannwg oedd yr Ymddiriedolaeth orau yng Nghymru o ran trefniadau rheoli risgiau yn 2007.
- Monitro risgiau trwy'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.
- Trefniadau Rheolaeth Glinigol cryf.

- Y Pwyllgor Archwilio a Chydymffurfio sy'n goruchwyllo gwaith craffu ac archwilio ariannol y sefydliad.

S27.3. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymgymryd â gwaith i sicrhau bod Rheolaeth Gorfforaethol, Clinigol, Ariannol a Gwybodaeth yn cael ei gweithredu mewn modd integredig er mwyn canolbwyntio ar y claf/defnyddiwr yn hytrach na'r seilos y mae'r swyddogaethau'n gweithredu ynddynt.

S27.4. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Serch hynny ystyriwn fod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol gan na wnaeth ein hadolygiad ganfod tystiolaeth nac enghreifftiau sylweddol o welliant parhaus.

Safon 28

Mae sefydliadau gofal iechyd:

- yn sicrhau bod gwaith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol yn dilyn egwyddorion llywodraethu clinigol;*
- yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; ac*
- yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr.*

S28.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S28.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Y Cynllun Datblygu Rheolaeth Glinigol treigl dros dair blynedd sy'n amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu'r Agenda Rheolaeth Glinigol a Risgiau, ac mae'r Pwyllgor Rheolaeth Glinigol a Risgiau yn monitro cynnydd yn erbyn hyn.
- Mae'r Pwyllgor Rheolaeth Glinigol a Risgiau yn monitro cydymffurfiad â threfniadau rheolaeth glinigol a risgiau ac yn adrodd i Fwrdd yr

Ymddiriedolaeth yn rheolaidd. Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol a phartneriaid o'r BILI a'r Cyngor Iechyd Cymuned yn aelodau o'r Pwyllgor.

- Mae Cyfarwyddiaethau wedi datblygu Cynlluniau Datblygu Rheolaeth Glinigol ac yn cyflwyno'r rhain i'r Pwyllgor Rheolaeth Glinigol a Risgiau o leiaf bob blwyddyn.
- Mae'r Swyddfa Ranbarthol hefyd yn adolygu perfformiad yr Ymddiriedolaeth ynglŷn â'r Agenda Rheolaeth Glinigol a Risgiau.

S28.3. Mae'r Pwyllgor Rheolaeth Glinigol a Risgiau yn derbyn cyflwyniadau am Hanes Cleifion yn y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd gan un aelod o'r staff sy'n dilyn Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol Coleg Brenhinol y Nyrsys, sy'n helpu i ddangos rheolaeth glinigol ar waith. Cadarnhawyd y trefniadau sydd wedi'u sefydlu yn ystod yr ymweliad arsylwadol a bod y staff yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau rheolaeth glinigol.

S28.4. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

4.4. Iechyd y Cyhoedd

Safon 29

Mae sefydliadau gofal iechyd yn hybu, amddiffyn a gwella iechyd y gymuned sy'n cael ei gwasanaethu ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd:

- a. drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles; a*
- b. thrwy sicrhau bod eu polisiau a'u harferion yn seiliedig ar asesiadau o angen a chyngor cadarn ar iechyd y cyhoedd.*

S29.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S29.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Mae'r Prif Weithredwr yn aelod o Fyrddau Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Lleol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf a grwpiau allweddol eraill.
- Mae'r Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles wedi'u seilio ar asesiad cynhwysfawr a chadarn o angen iechyd ac yn nodi'r blaenoriaethau cytunedig y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy, ac mae'r rhain yn cael eu monitro a'u datblygu trwy gynllun gweithredu.
- Mae cyngor ar Iechyd y Cyhoedd ar gael i'r Ymddiriedolaeth trwy Gyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd y BILI ac maent yn arwain yr Asesiad o Anghenion Iechyd, sy'n ffordd o annog y cyhoedd i ddylanwadu ar gyfeiriad atal clefydau a hybu iechyd.
- Cafwyd cyngor ar Iechyd y Cyhoedd i'w gynnwys yn y fframwaith ar gyfer Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

S29.3. Mae Rheolwr Cynllunio'r Ymddiriedolaeth yn aelod gweithredol o'r Tîm Cynllunio Strategol ar gyfer Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, ac ar hyn o bryd

maent yn gweithio ar ganllawiau newydd ac yn datblygu Strategaeth newydd ar gyfer 2008-2011.

S29.4. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 30

Mae sefydliadau gofal iechyd:

- a. *yn rheoli rhaglenni systematig ar gyfer atal clefydau a hybu iechyd sy'n cynnwys staff, ac sy'n bodloni gofynion y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, y cynlluniau cenedlaethol a'r blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydau; ac*
- b. *yn ystyried yr holl bolisiau cyfredol ac arfaethedig a'r wybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu rhaglenni iechyd y cyhoedd, rhaglenni hybu iechyd a gwasanaethau atal, ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaeth.*

S30.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S30.2. Mae'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn arwain yr Ymddiriedolaeth o ran cyflwyno rhaglenni atal clefydau a hybu iechyd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu grwpiau i ystyried yr amryw Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, megis Diabetes, Pobl Hŷn ac Iechyd Meddwl mewn cydweithrediad â phartneriaid eraill lle y bo'n briodol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol i gyflwyno modelau gofal ar gyfer rheoli cleifion â chyflyrau hirdymor.

S30.3. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 31

Mae sefydliadau gofal iechyd:

- a. *yn rhoi cynlluniau ar waith i ddarparu adnoddau ar gyfer amddiffyn y cyhoedd os bydd achosion sylweddol o glefyd heintus yn digwydd neu argyfwng iechyd arall;*

- b. yn nodi ac yn mynd i'r afael â phroblemau difrifol ym maes iechyd y cyhoedd ac anghydraddoldebau iechyd, gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn arwain;
- c. yn gweithredu rhaglenni effeithiol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd; ac yn amddiffyn eu poblogaethau rhag peryglon a nodwyd eisoes a pheryglon newydd i iechyd; ac
- ch. yn annog ac yn helpu unigolion i gydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i edrych ar ôl eu hiechyd a'u lles eu hunain.

S31.1. Gweler yr ymateb i Safon 18.

Safon 32

Mae'r sefydliadau gofal iechyd yn cyflawni'r Safon Iechyd Gorfforaethol, sef y nod ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd yn y gweithle, ac yn symud i lefel uwch ar ôl cael ailasesiad.

S32.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S32.2. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i ennill y Wobr Arian yn yr asesiad diwethaf ar gyfer y Safon Iechyd Gorfforaethol ym mis Medi 2003 ac wedi parhau i gynnwys staff yn y broses. Gan fod yr Ymddiriedolaeth ar fin uno gydag Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda, bydd yn cael ei hailasesu pan fydd y broses integreiddio wedi'i chwblhau.

S32.3. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Mae crynodeb o'r lefelau aeddfedrwydd ar gyfer pob un o'r 32 safon, fel y'u haseswyd gan Ymddiriedolaeth Gogledd Morgannwg trwy ei hunanasesiad a chan AGIC yn dilyn profi a gwerthuso, i'w weld yn Atodiad 2.

5. Y Camau Nesaf

5.1. Mae'n ofynnol i Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg gyhoeddi Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd erbyn 30 Tachwedd 2007. Bydd Swyddfa Ranbarthol Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno ar y cynllun hwn, a bydd yn monitro ei weithredu fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad sydd wedi'u sefydlu ar gyfer GIG Cymru. Bydd y cynllun ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

5.2. Yn ystod y misoedd i ddod bydd AGIC yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fireinio a gwella'r dull asesu ar gyfer y dyfodol ac i alinio proses hunanasesu'r Safonau Gofal Iechyd â'r cylch ariannol blyneddol.

5.3. Cyhoeddir adroddiad Cymru gyfan ym mis Tachwedd 2007 a bydd yn cynnwys y canfyddiadau o adroddiadau unigol mewn trosolwg o'r sefyllfa ar draws Cymru. Bydd yr adroddiad hwn yn nodi'r themâu allweddol a'r meysydd risg a amlygwyd yn ystod proses asesu'r Safonau Gofal Iechyd.

Diffiniadau o Lefelau Aeddfedrwydd

	Ymwybodol	Ymateb	Datblygu	Ymarfer	Arwain
Corfforaethol	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy ond nid yw'n gallu dangos penderfyniadau/camau i fynd i'r afael â hwy.	Mae'r Bwrdd yn cydnabod y materion allweddol ac wedi nodi opsiynau y mae angen eu blaenoriaethu, ond nid oes tystiolaeth o gyfeiriad strategol.	Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â materion allweddol trwy ddatblygu cynlluniau strategol gyda thystiolaeth o arfer da ar draws y sefydliad.	Mae'r agenda strategol yn cael ei datblygu a'i monitro gan y Bwrdd gyda thystiolaeth sylweddol o welliant parhaus ar draws y sefydliad.	Mae'r Bwrdd yn arwain yr agenda strategol trwy weithredu arfer arloesol a rennir ar draws y sefydliad a'r tu hwnt, gan alluogi gwireddu cynladwyedd hirdymor.
Gweithredol	Mae ymwybyddiaeth o'r materion y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy, ond nid oes unrhyw ddulliau wedi'u datblygu i fynd i'r afael â hwy.	Ceir cydnabyddiaeth o'r materion allweddol y mae angen ymdrin â hwy ac mae ystod o ddewisiadau wedi'u nodi i fynd i'r afael â hwy.	Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o gymhwysio ymarferol ar draws y sefydliad.	Mae cynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda yn cael eu gweithredu ar draws y sefydliad sy'n mynd i'r afael â materion allweddol, a cheir tystiolaeth o werthuso a meincodi sy'n arwain at welliant parhaus.	Mae tystiolaeth o arfer arloesol, a rennir ar draws y sefydliad a'r tu hwnt. Maent yn datblygu eu dulliau ymhellach er mwyn sicrhau gwelliant cynaliadwy hirdymor.
Profiad y Defnyddiwr	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn wael ar y cyfan ac nid oes dulliau wedi'u datblygu o fewn y gwasanaethau i fynd i'r afael â hwy.	Nid yw profiad yr unigolyn/unigolion yn dda ar y cyfan, er bod dulliau wedi'u datblygu o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hwy.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gwella mewn sawl maes, er nad yw hyn yn gyson ar draws y sefydliad hyd yma.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn dda ar y cyfan ar draws yr holl feysydd.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn wych ar y cyfan, ac mae'r gwasanaeth yn gallu dangos tystiolaeth glir o arfer da, y gellir ei rannu.

Atodiad 2

Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd yn ôl Safon

Allwedd

L	Arwain
P	Ymarfer
D	Datblygu
R	Ymateb
A	Ymwybodol

Safon 1

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 2

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 3

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 4

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 5

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 6

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 7

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 8

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 9

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↑	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 10

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	R	↔	R
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 11

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 12

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 13

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 14

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 15

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 16

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 17

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 18

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 19

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 20

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 21

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 22

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 23

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 24

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 25

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 26

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 27

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 28

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 29

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 30

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Aseiad AGIC
Corfforaethol	D	←→	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	←→	D
Profiad y Defnyddiwr	D	←→	D



Safon 31

Amherthnasol - Gweler safon 3


Safon 32

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Aseiad AGIC
Corfforaethol	P	←→	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	←→	P
Profiad y Defnyddiwr	P	←→	P


**Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl y Lefelau Corfforaethol,
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr**




Sgorau Aeddfedrwydd y Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol



Sgorau Aeddfedrwydd Lefel Profiad y Defnyddiwr



Cytuno/Anghytuno â Sgôr yr Ymddiriedolaeth



Rhestr Termiau

Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan – mae'n cynghori'r Gweinidog dros iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar reoli a rhagnodi meddyginiaethau strategol.

cerdyn sgorio cytbwys - system reoli sy'n darparu model er mwyn i sefydliad egluro ei weledigaeth a'i strategaeth a'u rhoi ar waith. Mae'n cefnogi gwelliant parhaus ym mherfformiad y sefydliad.

Gwarcheidwad Caldicott - uwch glinigwr ym mhob sefydliad y GIG sy'n gyfrifol am weithredu agweddau ar adroddiad Caldicott, a oedd yn adolygu diogelu a defnyddio gwybodaeth am gleifion.

llwybr gofal - set ddiffiniedig o gamau triniaeth a gofal a luniwyd i fodloni anghenion penodol pob claf.

archwilio clinigol – dull a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol iechyd i werthuso a mesur i ba raddau y maent yn bodloni'r safonau a osodwyd ar gyfer eu gwasanaeth.

rheolaeth glinigol – fframwaith a ddefnyddir i sicrhau bod sefydliadau'r GIG yn atebol am wella ansawdd eu gwasanaethau'n a chynnal safonau uchel o ran gofal yn barhaus.

rhwydweithiau clinigol – grŵp o wasanaethau sy'n cydweithio ar draws ffiniau cyfundrefnol er mwyn darparu gwell gofal i gleifion.

canlyniad clinigol – effaith triniaeth ar iechyd a lles unigolyn.

Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) – sefydliadau di-elw, cymunedol sy'n ymwneud â hybu iechyd, eiriolaeth iechyd a pholisïau iechyd. Sefydlwyd Cyngorau Iechyd Cymuned ym 1992 er mwyn cryfhau cyfranogiad y gymuned wrth ddiffinio polisïau gwladol a lleol sy'n effeithio ar fynediad at ofal iechyd ac ansawdd gofal iechyd. Mae Cyngorau Iechyd Cymuned yn cynrychioli lles y cyhoedd yn y GIG ac mae hawl statudol ganddynt i fod yn rhan o ymgynghoriadau ynghylch newidiadau iechyd yn eu hardaloedd.

Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) – asiantaeth weithredol a sefydlwyd er mwyn helpu sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel trwy ddarparu mynediad ehangach at wybodaeth am gofnodion troseddol. Mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn helpu cyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i nodi ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer rhai mathau o waith, yn enwedig gwaith sy'n cynnwys cysylltiad â phlant neu bobl eraill sy'n agored i niwed mewn cymdeithas.

diogelu data – gofyniad ar sefydliadau cyhoeddus ac eraill i weithredu'n gyfrifol wrth reoli data personol. Ymdrinnir â chyfrifoldebau o'r fath gan Ddeddf Diogelu Data 1984 a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, a luniwyd i ddiogelu data a gedwir am unigolion.

Cynllun Oes - mae'n amlinellu'r weledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac mae ganddo strategaeth ddeng mlynedd er mwyn gwireddu hynny. Mae'r strategaeth yn cynnwys tri fframwaith strategol, gyda phob un ohonynt yn para tua thair blynedd. Mae'r rhain yn cynnwys: Fframwaith 1 (2005-2008) Ailgynllunio Gofal Iechyd; Fframwaith 2 (2008-2011) Cyflawni Safonau Uwch a; Fframwaith 3 (2011-2014) Gwasanaethau o Safon Fyd-eang.

Safonau Gofal Iechyd – fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cefnogi'r GIG a sefydliadau partner wrth ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol ac o ansawdd ym mhob lleoliad gofal iechyd.

rheoli heintiau – set o weithdrefnau ar gyfer atal lledaenu heintiau, a fydd yn cynnwys, er enghraifft, golchi dwylo, defnyddio offer dihaint, ayyb.

Byrddau Iechyd Lleol (BILI) - sefydliadau statudol sy'n gyfrifol am weithredu strategaethau i wella iechyd y boblogaeth leol, sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol a sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd.

Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) - sefydliadau hunanlywodraethu o fewn y GIG, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae ymddiriedolaethau yn cyflogi ystod lawn o weithwyr gofal iechyd proffesiynol gan gynnwys meddygon, nyrsys, dietegwyr, ffisiotherapyddion, ayyb. Mae ymddiriedolaethau aciwt yn darparu gwasanaethau meddygol a llawfeddygol mewn ysbytai fel arfer. Mae ymddiriedolaethau cymunedol yn darparu gwasanaethau iechyd lleol, fel arfer yn y gymuned, e.e. nyrsys ardal, trinwyr traed, ayyb. Mae ymddiriedolaethau cyfun yn darparu gwasanaethau ymddiriedolaeth gymunedol ac aciwt o dan un system reoli.

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) - awdurdod iechyd arbennig sy'n cynhyrchu canllawiau ar gyfer y GIG a chleifion ar feddyginiaethau, offer meddygol a gweithdrefnau clinigol.

Yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) - awdurdod iechyd arbennig a grëwyd ym mis Gorffennaf 2001 er mwyn cydlynu ymdrechion y wlad gyfan i adrodd ac, yn bwysicach, i ddysgu o gamgymeriadau a phroblemau sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion.

Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru – mae'n cyflwyno ystod lawn o wasanaethau iechyd y cyhoedd sy'n ceisio: gwella iechyd a lles pobl yng Nghymru a lleihau anghydraddoldebau iechyd; diogelu yn erbyn clefydau a bygythiadau iechyd cyfredol, newydd ac sy'n dod i'r amlwg ac; yn cyfrannu at wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) - canllawiau ar gyfer y gwasanaeth iechyd ar sut i reoli a thrin mathau penodol o glefydau a salwch.

Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (CCC) – strategaeth a luniwyd i sicrhau bod barn a safbwyntiau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r cyhoedd yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol Coleg Brenhinol y Nyrsys – rhaglen sy'n caniatáu amser wedi'i neilltuo i nyrsys er mwyn iddynt arsylwi gofal a darparu gwasanaethau, a chyfweld â chleifion ynghylch darparu gofal. Fe'i lluniwyd i alluogi nyrsys i ddatblygu a gwella eu sgiliau arwain, gwella sgiliau tîm a threfnu a chanolbwyntio ar anghenion cleifion.

Datganiadau o Reolaeth Fewnol - datganiad ar drefniadau cyffredinol sefydliad y GIG ar gyfer ceisio sicrwydd bod y prif risgiau o fewn y sefydliad yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Bwrdd yr Ymddiriedolaeth – grŵp o bobl sy'n gyfrifol trwy statud am wneud penderfyniadau pwysig sy'n ymwneud â strategaethau a pholisïau ym mhob Ymddiriedolaeth y GIG. Fel arfer mae'n cynnwys cadeirydd lleyg, pum aelod lleyg, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth.

Cronfa Risg Cymru – cynllun hunansicrwydd ar y cyd ar gyfer pob sefydliad iechyd yng Nghymru. Mae hefyd yn cefnogi diogelwch cleifion a staff trwy annog a chefnogi perfformiad da o ran rheoli risgiau ac asesu trwy fesur yn erbyn safonau penodol.